

Rheoli Gwastraff Trefol Awdurdodau Lleol

Beth yw'r ystadegau hyn?

Mae'r ystadegau hyn yn rhoi gwybodaeth gryno am waith rheoli gwastraff trefol awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r datganiad yn rhoi gwybodaeth am wastraff trefol a gasglwyd gan awdurdodau lleol ac a anfonwyd i'w waredu o gartrefi ac o ffynonellau eraill. At ddibenion y datganiad hwn, mae ystyr 'Gwastraff Trefol Awdurdodau Lleol' yn unol â'r diffiniad ym Mesur Gwastraff (Cymru) 2010. Yn ei strategaeth gwastraff bresennol 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', gosododd Llywodraeth Cymru dargedau statudol i ailgylchu 58 y cant o wastraff erbyn 2015-16, 64 y cant erbyn 2019-20 a 70 y cant erbyn 2024-25.

Cyhoeddir gwybodaeth gryno bob chwarter. Mae dadansoddiadau manwl ar gael mewn Datganiad Ystadegol Cyntaf blynyddol, a chyhoeddir yr holl ddata ar [StatsCymru](#).

Y cyd-destun gweithredol a pholisi

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant ar gyfer Cymru, sef Cymru sy'n fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach, a chyfrifol ar lefel fyd-eang, sydd â chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) cyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu defnyddio i fesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau Llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Rhoddwyd y 46 dangosydd cenedlaethol gerbron ym mis Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn [Adroddiad Llesiant Cymru](#).

Mae a wnelo un o'r dangosyddion cenedlaethol â gwastraff, sef ' Swm y gwastraff a gynhyrchir ac na chaiff ei ailgylchu, y pen'. Mae'r dangosydd hwn yn cwmpasu cyfanswm (kg) y gwastraff gweddillol (h.y. gwastraff na chaiff ei aildefnyddio, ei ailgylchu na'i gompostio) yng Nghymru, gan bob sector, y pen. Caiff y wybodaeth a gynhwysir yn y datganiad hwn ei defnyddio i gyfrifo elfen 'gwastraff cartrefi gweddillol Awdurdodau Lleol' o'r dangosyddion cenedlaethol. Nid oes gwybodaeth am wastraff y sector diwydiannol a masnachol a'r sector adeiladu a dymchwel wedi'i chynnwys yn y datganiad ystadegol hwn.

Rhagor o wybodaeth am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau sydd wedi eu cynnwys yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif i gefnogi'r dangosyddion cenedlaethol a gall gwasanaethau cyhoeddus eu defnyddio mewn cysylltiad â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

Defnyddwyr a sut y defnyddir y data

Mae ystadegau gwastraff yn bwysig wrth ddatblygu polisi a chynllunio sut i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, megis rheoli gwastraff. Dyma rai defnyddiau a wneir ohonynt:

- monitro cynnydd tuag at dargedau gwastraff
- gofynion statudol i ddarparu adroddiadau i'r Undeb Ewropeaidd
- datblygu polisi
- cyngor i Weinidogion
- llywio dadleuon yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a thu hwnt
- proffilio daearyddol, cymariaethau a meincnodi

Mae nifer o ddefnyddwyr yn defnyddio ystadegau gwastraff gan gynnwys llywodraeth ganol a lleol, ymchwilwyr, myfyrwyr a dinasyddion unigol.

Yn fwy penodol, caiff data rheoli gwastraff eu casglu er mwyn monitro cynnydd tuag at dargedau cenedlaethol a lleol, yn arbennig yn erbyn gofynion Cyfarwyddeb Tirlenwi yr UE. Nod y Gyfarwyddeb hon yw lleihau faint o fethan sy'n cael ei ollwng o safleoedd tirlenwi drwy osod targedau i'r Aelod Wladwriaethau i leihau swmp y gwastraff trefol pydradwy sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Hefyd, yn ei strategaeth gwastraff bresennol 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', gosododd Llywodraeth Cymru dargedau statudol i ailgylchu 58 y cant o wastraff erbyn 2016-17, a 70 y cant erbyn 2024-25.

Cryfderau a chyfyngiadau'r data

Cryfderau

- Mae'r wybodaeth yn cael ei phrosesu a'i chyhoeddi'n aml ac mewn trefn er mwyn i ddefnyddwyr weld yr ystadegau pan maent yn gyfredol ac o bennaf ddiddordeb.
- Mae gan yr allbynnau ffocws clir ar Gymru ac maent wedi cael eu datblygu i ddiwallu angen defnyddwyr mewnol ac allanol yng Nghymru.
- Darperir ystadegau manwl drwy ein gwefan [StatsCymru](#) ar lefel awdurdod lleol.

Cyfyngiadau

- Oherwydd y gweinyddiaethau datganoledig a'r gwahaniaethau mewn polisi, mae'n anodd cymharu ar draws y Deyrnas Unedig (gweler yr adran ar Ystadegau Cysylltiedig i gael y gymhariaeth fwyaf priodol).
- Mae cywirdeb y data a ddarperir i WasteDataFlow yn llwyr ddibynnol ar waith mesur, rheoli data ac adrodd gan awdurdodau lleol a gweithredwyr gwastraff. Er bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud gwaith dilysu yn unol â'r Rheoliadau, cywirdeb y rhai sy'n darparu adroddiadau sy'n pennu pa mor ddilys yw WasteDataFlow a'r traws wiriadau gyda data gwastraff arall sydd ar gael.

Y cylch prosesu data

Ffynhonnell a chwmpas y data

Rhwng 1996-97 a 2003-04, câi data am wastraff trefol ei gasglu drwy'r Arolwg Rheoli Gwastraff Trefol. Câi'r arolwg hwn ei anfon at bob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr. O 1998-99, roedd cyfradd ymateb Cymru yn 100 y cant.

O 2004-05, bu'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu drwy ddefnyddio system adrodd ar-lein o'r enw '[WasteDataFlow](#)'. Yng Nghymru, arferai hon gael ei rheoli gan Asiantaeth yr Amgylchedd, ond Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n ei rheoli erbyn hyn, ac mae Cangen Strategaeth Gwastraff Llywodraeth Cymru yn tynnu'r wybodaeth ar gyfer yr adroddiad o WasteDataFlow.

O dan reoliad 8 o Reoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004 a rheoliad 5 o Reoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru ddarparu gwybodaeth yn chwarterol am y gwastraff trefol a gasglwyd: faint o wastraff trefol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi a faint o wastraff trefol a anfonwyd i gyfleusterau eraill. Caiff y wybodaeth hon ei chyflwyno gan yr awdurdodau lleol drwy WasteDataFlow. Yr awdurdod monitro (Cyfoeth Naturiol Cymru) sy'n gyfrifol wedyn am ddilysu'r wybodaeth.

Mae canllawiau a thafleuni ffeithiau WasteDataFlow ar gael yn rhwydd i'r awdurdodau lleol ar-lein. Mae'r canllawiau'n cynnwys llawlyfr ar y system, rhestr o gwestiynau penodol i Gymru gyfan a rhestr o ganllawiau sy'n benodol i Gymru. Yn gyffredinol, mae'r cwestiynau'n ddigon syml. Fodd bynnag, gellir cael esboniad pellach o'r cwestiynau mwy cymhleth yn y canllawiau cyffredinol. Hefyd, mae canllawiau wrthi'n cael eu paratoi fesul cwestiwn unigol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cefnogi awdurdodau lleol Cymru ar unrhyw faterion WasteDataFlow sy'n ymwneud yn benodol ag awdurdodau lleol.

Mae WasteDataFlow yn cael ei wella a'i ddatblygu'n barhaus a gall hynny effeithio ar y ffordd y caiff data ei gofnodi a chyflwyno adroddiadau data newydd yn seiliedig ar ofynion data newydd. Mae natur cyflwyno'r newidiadau hyn yn gallu arwain at broblemau dehongli data, er enghraifft gyda data hanesyddol sydd yn y system yn barod. Gall rhai newidiadau fod yn gymhleth eu natur gan arwain at ganlyniadau mewn adroddiadau na sylweddolir mohonynt yn llawn efallai i ddechrau. Caiff unrhyw newidiadau i'r system eu monitro'n ofalus am unrhyw anghysondebau rhwng cofnodi data a llunio adroddiadau. Os bydd anghysondebau'n codi, caiff system WasteDataFlow ei haddasu a bydd unrhyw ddata a gyhoeddwyd yn flaenorol yn cael eu hadolygu neu rhoddir cafeatau arnynt fel sy'n briodol.

Casglu data

Mae'r ffigurau a ddangosir yn y Datganiad Ystadegol hwn yn seiliedig ar ffurflenni ystadegol chwarterol sy'n cael ei llenwi gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Caiff awdurdodau lleol wybod am amserlen yr ymarfer casglu data ymlaen llaw. Mae hyn yn rhoi digon o amser i awdurdodau lleol goladu'u gwybodaeth a lleisio unrhyw bryderon a all fod ganddynt. Mae arweiniad ar gael yn y daenlen, sy'n helpu defnyddwyr i lenwi'r ffurflenni.

Dilysu a gwirio

O dan reoliad 8 o Reoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004 a rheoliad 5 o Reoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru ddarparu gwybodaeth yn chwarterol am y gwastraff trefol a gasglwyd: faint o wastraff trefol yr awdurdod a anfonwyd i safleoedd tirlenwi a faint o'i wastraff trefol a anfonwyd i gyfleusterau

eraill. Caiff y wybodaeth hon ei chyflwyno gan yr awdurdodau lleol drwy WasteDataFlow. Yr awdurdod monitro (Cyfoeth Naturiol Cymru) sy'n gyfrifol wedyn am ddilysu'r wybodaeth. Manylir ar y gofynion adrodd ym mhrotocol adrodd Cyfoeth Naturiol Cymru sydd wedi'i gyhoeddi ar WasteDataFlow 'Guidance on reporting and notices for Landfill Allowances Scheme and Recycling, Preparation for Re-use and Composting Targets', Feb 2016. Mae'n cynnwys y dyddiadau terfyn y mae gofyn i'r awdurdodau lleol gadw atynt wrth ddarparu data prydlon (Lefel 30) a chywir (Lefel 35) a'r dyddiadau terfyn ar gyfer gwneud newidiadau i'r data.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru dri mis i ddilysu'r data. Mae dilysu yn golygu gweithdrefn i wirio bod holl gwestiynau perthnasol WasteDataFlow wedi cael eu cwblhau gan yr awdurdodau lleol a bod unrhyw anghysondebau rhwng y wybodaeth a fewnbynnir a'r allbynnau yn cael eu canfod. Rhoddir gwybod wedyn i'r awdurdodau lleol unigol am unrhyw anghysondebau a chymerir camau i'w datrys. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn gofyn i'r awdurdodau lleol ddarparu tystiolaeth mewn perthynas â'u data gwastraff, ac mae hyn yn broses barhaus yn ystod pob chwarter dilysu a gydol blwyddyn y cynllun.

Cyhoeddi

Unwaith y bydd y data ar ei ffurf derfynol, caiff y datganiad ei lunio a bydd y sylwebaeth a'r prif bwyntiau'n cael eu drafftio. Mae'r datganiad yn cael ei wirio'n annibynnol a chynhelir gwiriad synnwyr terfynol gan yr ystadegydd perthnasol cyn cyhoeddi ar y wefan.

Safonau

Mae'r ystadegau a baratoir yn cydymffurfio â safonau proffesiynol cydnabyddedig. Cânt eu llunio yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau yn annibynnol o dan gyfrifoldeb Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru.

Cynhyrchir Ystadegau Swyddogol i safonau proffesiynol uchel a nodir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Maen nhw'n destun adolygiadau sicrwydd ansawdd rheolaidd i sicrhau eu bod nhw'n diwallu anghenion cwsmeriaid. Fe'u cynhyrchir yn rhydd o unrhyw gyfeiriad gwleidyddol.

Mae gwybodaeth fanylach am ansawdd sy'n ymwneud yn benodol â Gwastraff Trefol yng Nghymru, nad yw wedi'i chynnwys yn yr adroddiad ansawdd, wedi cael ei nodi isod.

Sicrhau Ansawdd Data Gweinyddol

Mae'r datganiad hwn wedi ei sgorio yn erbyn Matrics Sicrhau Ansawdd Data Gweinyddol Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Y matrics yw safon rheoleiddio Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig ar gyfer sicrhau ansawdd data gweinyddol. Mae'r Safon yn cydnabod y rôl gynyddol sydd gan ddata gweinyddol yn y gwaith o lunio ystadegau swyddogol, ac mae'n esbonio beth ddylai cynhyrchwyr ystadegau swyddogol ei wneud i fodloni'u hunain bod y data o'r ansawdd iawn. Mae'r pecyn sy'n ei chefnogi'n darparu arweiniad defnyddiol i gynhyrchwyr ystadegau am yr arferion y gallant eu mabwysiadu i sicrhau ansawdd y data a dderbyniant, ac mae'n pennu'r safonau ar gyfer asesu ystadegau yn erbyn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

Mae'r matrics yn asesu'r datganiad ar sail y meini prawf a ganlyn:

- cyd-destun gweithredol a chasglu data gweinyddol
- cyfathrebu â phartneriaid cyflenwi data
- gwiriadau, safonau ac egwyddorion sicrhau ansawdd a ddefnyddir gan gyflenwyr data
- dogfennau ac ymchwiliadau sicrhau ansawdd y cynhyrchwyr.

Mae'r datganiad wedi cael ei sgorio dros dro fel 'A2: Sicrwydd gwell' ar gyfer pob un o'r tri chategori cyntaf uchod, ac fel 'A3: Sicrwydd cynhwysfawr' ar gyfer y categori terfynol

Ansawdd

Mae Rheoli Gwastraff Trefol gan Awdurdodau Lleol Cymru yn cydymffurfio â [Strategaeth Rheoli Ansawdd Ystadegol](#) Llywodraeth Cymru, ac mae hyn yn unol â chwe dimensiwn ansawdd y System Ystadegol Ewropeaidd, fel y'u rhestrir yn Egwyddor 4 y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Mae manylion y chwe dimensiwn, a sut yr ydym yn cydymffurfio â nhw, ar gael isod:

Perthnasedd

I ba raddau y mae'r cynnyrch ystadegol yn bodloni anghenion y defnyddwyr o ran cwrdd a chynnwys.

Y data yn y Datganiad Ystadegol hwn sy'n darparu'r sylfaen dystiolaeth er mesur cyfraddau ailgylchu yng Nghymru. Fe'u defnyddir gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau amgylcheddol eraill i fonitro'r cynnydd a weir gan awdurdodau lleol Cymru o ran cyrraedd y targedau ailgylchu. Mae buddiannau eraill a defnydd arall o'r data hyn yn cael eu disgrifio uchod.

Rydym yn adolygu'n hallbynnau'n gyson ac yn croesawu adborth.

Cywirdeb

Mae anghysondeb yn ôl pob golwg rhwng y ffigurau cyfanswm gwastraff a roddwyd am y cyfnod 2008-09 i 2013-14 (hen ddiffiniad) o ran gwastraff trefol awdurdodau lleol (o gartrefi a ffynonellau eraill) a gynhyrchwyd yng Nghymru a gwaith rheoli gwastraff trefol awdurdodau lleol. Mae hyn am fod ychydig o wahaniaeth rhwng y swmp a gasglwyd a faint a anfonwyd i'w drin. Gallai hyn fod yn fater o amseru os yw awdurdodau, er enghraifft, yn pentyrru gwastraff i gael ei drin yn ddiweddarach. Gallai fod rhywfaint o anghysondeb hefyd o ran y mesur, gan fod y gwastraff yn cael ei bwysu wrth ei gasglu ac eto pan fydd yn cael ei anfon i gael ei drin. Hefyd, gellid colli pwysau drwy wahanol brosesau trin. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dilysu holl ddatganiadau'r awdurdodau lleol ac yn mynnu nad yw'r gwahaniaeth rhwng y swmp a gesglir a'r swmp a anfonir i gael ei drin yn gwahaniaethu o fwy na 10 y cant mewn unrhyw chwarter, oni ellir rhoi esboniad dilys. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi rhoi mwy o bwyslais ar i'r awdurdodau ddarparu mwy o dystiolaeth ynglŷn â'u hystadegau gwastraff o 2012-13 ymlaen.

Lle mae awdurdodau lleol yn casglu gwastraff o ffynonellau ar wahân i gartrefi (h.y. o fusnes, ysgol etc) ar yr un rownd gasglu â gwastraff cartrefi, efallai na fydd yn bosibl iddynt wahanu'r gwastraff a gesglir yn gywir rhwng cartrefi a ffynonellau eraill. Gallai hynny olygu elfen o duedd yn y data.

Yn y tablau lle mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r digid terfynol agosaf, efallai na fydd yr eitemau unigol yn adio'n union i'r cyfanswm.

Esbonnir newidiadau mewn data rhwng 2016-17 a 2017-18 yn rhannol gan welliant yng nghywirdeb y cofnodi yn 2017-18. Yn benodol, gwelliant i gywirdeb adrodd am gyrchfannau pren (a amcangyfrifwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i gyfrannu gostyngiad o 0.8 pwynt canran yn y gyfradd gyffredinol yn 2017-18). Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru bellach yn cyfrif am, ac yn cyflwyno cyfran o' deunyddiau a wrthodwyd o gyfleusterau didoli pren canolradd i'w gwaredu.

Ym 2017-18 hefyd, cafwyd gostyngiad yn y nifer o ludw gwaelod llosgydd (gan gynnwys metelau) yr adroddwyd eu bod wedi'u hailgylchu (a amcangyfrifwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i gyfrannu gostyngiad o 0.7 pwynt canran yn y gyfradd gyffredinol). Priodolir hyn i rai awdurdodau lleol sy'n anfon mwy o wastraff gweddilliol i safleoedd tirlenwi yn hytrach na llosgi fel cyfleuster wrth gefn, ar ôl i gyfleuster gael ei gau. Yn gyffredinol, anfonodd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru lai o wastraff gweddilliol i'w losgi.

Diwygiadau

Os yw awdurdodau lleol am newid data sydd wedi'i gyflwyno'n flaenorol y tu allan i'r cyfnod dilysu, rhaid iddynt gyflwyno cais 'mynd yn ôl' i Gangen Strategaeth Gwastraff Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru, yn nodi'r rhesymau am y newidiadau. Mae hyn yn rhwystro unrhyw newidiadau nad yw'r awdurdod monitro'n ymwybodol ohonynt rhag cael eu gwneud ac yn gweithredu fel cymhelliad i'r awdurdodau lleol i fewnbynnu data cywir.

Er mwyn dilysu data blynyddoedd blaenorol, caiff ffigurau eu paratoi drwy atgynhyrchu cyfrifiadau o ddata crai, lle mae'n bosibl. Gall hyn ddatgelu camgymeriadau yn y cyfrifiadau cychwynnol. Lle mae data wedi cael ei ddiwygio, caiff ei farcio'n glir ag (r).

Yn flaenorol, cyfrifwyd gwastraff gweddilliol cartrefi fesul annedd gan ddefnyddio'r amcangyfrifon diweddaraf o'r stoc anheddau a oedd yn berthnasol i 31 Mawrth yn y flwyddyn flaenorol. Hynny yw, cyfrifwyd gwastraff gweddilliol cartrefi fesul annedd ar gyfer 2017-18 gan ddefnyddio amcangyfrifon stoc annedd ar 31 Mawrth 2017. Fodd bynnag, yn dilyn gwelliant i fethodoleg amcangyfrif stoc anheddau ym mis Medi 2019, cyhoeddir amcangyfrifon stoc anheddau erbyn hyn o fewn 6 mis i'r dyddiad cyfair. Felly cyfrifwyd gwastraff gweddilliol fesul annedd ar gyfer 2018-19 gan ddefnyddio amcangyfrifon stoc annedd ar 31 Mawrth 2019. Diweddarwyd ffigurau gwastraff gweddilliol blaenorol fesul annedd gan ddefnyddio amcangyfrifon diwygiedig o'r stoc anheddau sy'n berthnasol i'r un flwyddyn.

Rydym yn glynu wrth [bolisi adolygiadau ystadegol Llywodraeth Cymru](#).

Amseroldeb a phrydlondeb

Mae amseroldeb yn cyfeirio at yr amser rhwng cyhoeddi'r data a'r cyfnod y mae'r data'n cyfeirio ato. Mae prydlondeb yn cyfeirio at yr amser rhwng y dyddiad y cyhoeddwyd y data mewn gwirionedd a'r dyddiad cyhoeddi a oedd wedi'i gynllunio.

Mae'r holl allbynnau'n cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar Ystadegau drwy gyhoeddi ymlaen llaw ddyddiad y cyhoeddi ar dudalennau [i'w cyhoeddi cyn hir ar wefan Ystadegau i Gymru](#). Yn ogystal, petai angen gohirio allbwn, byddai hyn yn dilyn trefniadau [Diwygiadau, Camgymeriadau a Gohiriadau Llywodraeth Cymru](#).

Rydym yn cyhoeddi datganiadau cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfnod amser perthnasol.

Hygyrchedd ac eglurder

Mae rhagor o ddata ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan ryngweithiol [StatsCymru](#). Mae data ar gael am wastraff trefol blynyddol, gwastraff trefol chwarterol, gwastraff Adeiladu a Dymchwel, a gwastraff Diwydiannol a Masnachol.

Cymaroldeb

O 1 Ebrill 2012, cafwyd newidiadau yn y diffiniadau yn ymwneud â'r gwastraff trefol awdurdodau lleol a gynhyrchir a'r ganran sy'n cael ei pharatoi i'w haildefnyddio, ei hailgylchu neu'i chompostio yng Nghymru. O ganlyniad, o 2012-13 ymlaen, bydd modd cymharu'r ffigurau a gyhoeddir yn y bwletin ystadegol blynyddol hwn â'r rheini yn y datganiad ystadegol chwarterol a'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol.

Mae'r newid yn y diffiniad yn golygu y bydd y data am 2012-13 ac ymlaen yn wahanol i'r ffigurau a gâi eu dangos gynt yn y bwletin ystadegol blynyddol. Mae mwyafrif y wybodaeth a ddangosir am flynyddoedd cynharach yn y bwletin yn ymdrin â gwastraff a gasglwyd i'w waredu/trin, fodd bynnag, o dan y diffiniad newydd mae'r ffigurau'n cyfeirio at wastraff a anfonwyd i'w waredu/ei drin mewn gwirionedd.

Arferai gwybodaeth am gerbydau gadawedig gael ei darparu yn y bwletin ystadegol blynyddol. Fodd bynnag, gan nad yw cerbydau gadawedig yn cael eu cofnodi gan bob awdurdod lleol ar WasteDataFlow (gan nad ydynt yn cael eu dosbarthu'n wastraff trefol awdurdod lleol) ac oherwydd pryderon posibl ynglŷn ag ansawdd y data, penderfynwyd hepgor y wybodaeth o'r rhifyn hwn o'r bwletin a rhifynnau'r dyfodol.

Gwybodaeth bellach ar gael ar gais.

Cydlyniant

I ba raddau y mae data sy'n deillio o wahanol ffynonellau neu ddulliau, ond sy'n cyfeirio at yr un ffenomen, yn debyg.

[Mae fy Ailgylchu Cymru](#) yn galluogi unrhyw un i ddarganfod ble y caiff gwastraff a gasglwyd gan awdurdodau lleol ei anfon i'w ailbroseu - yng Nghymru, y DU ehangach, a thramor. Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer deunyddiau allweddol; gwydr, metel, gwastraff bwyd a gardd, papur, plastig, tecstilau a gwastraff offer electronig a thrydanol.

Ystadegau Cysylltiedig ar gyfer Gwledydd Eraill y Deyrnas Unedig

Mae rhagor o wybodaeth am ystadegau rheoli gwastraff trefol yn Lloegr ar gael ar [wefan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig](#).

Mae rhagor o wybodaeth am ystadegau rheoli gwastraff trefol yn yr Alban ar gael ar [wefan Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban](#).

Mae rhagor o wybodaeth am ystadegau rheoli gwastraff trefol yng Ngogledd Iwerddon ar gael ar [wefan Asiantaeth Diogelu Amgylchedd Gogledd Iwerddon](#).

Gwerthuso

Rydym bob amser yn falch o gael adborth ar unrhyw rai o'n hystadegau. Cysylltwch â ni drwy e-bostio: ystadegau.amgylchedd@llyw.cymru

Cynhyrchwyd gan Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru

Diweddarwyd ddiwethaf: Hydref 2018